LLYWELYN ap MOEL y PANTRI (bu farw 1440), bardd

Enw: Llywelyn ap Moel Y Pantri
Dyddiad marw: 1440
Plentyn: Owain ap Llywelyn ab y Moel
Rhiant: Llywelyn
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: bardd
Maes gweithgaredd: Barddoniaeth
Awdur: Ray Looker

O Lanwnnog yn Sir Drefaldwyn; mab i'r bardd (Llywelyn ?), a lysenwid Moel y Pantri, a thad i'r bardd Owain ap Llywelyn ap Moel y Pantri. Yr oedd yn ddisgybl i Rys ap Dafydd ab Iorwerth. Ymhlith ei farddoniaeth a erys ceir ei gywyddau i ferch a elwir Euron, cywydd ar lun ymddiddan rhwng y bardd a'i bwrs gwag, a nifer o gywyddau ymryson i Guto'r Glyn. Canodd hefyd ddau gywydd cellweirus i'r herwyr a lechai yng Nghoed y Graig, a gellir meddwl ei fod yntau yn un ohonynt. Trodd at grefydd cyn ei farw, a chladdwyd ef ym mynachlog Ystrad Marchell. Canodd Guto'r Glyn a Rhys Goch Eryri gywyddau marwnad iddo.

Ymddengys bod peth o'i waith wedi ei gambriodoli i Iolo Goch (gweler *I.G.E.*, arg. 1925, cxxxiii); ac awgrymir nad efe ond ei dad (sef Moel y Pantri) biau ddau gywydd arall a briodolir i Lywelyn mewn rhai llawysgrifau (*I.G.E.*, arg. 1925), cxxix.

Ni wyddys unrhyw fanylion am fywyd ei fab, OWAIN, ond cadwyd llawer o'i farddoniaeth mewn llawysgrifau; gweler Jones a Lewis, *Mynegai*; Bodewryd MS. 1; Brogyntyn MSS. 1, 2, 6; Cwrtmawr MS. 312; Gwysaney MS. 25; NLW MS. 16, 1553, 6681, 8330. Yn ei phlith ceir cywyddau i Watcyn Fychan o Hergest, Dafydd Llwyd Fychan o'r Hafod Wen, Gruffudd ap Meredudd o Aberriw, Edward ap Hywel ab Ieuan Llwyd o'r Faenor, a llawer o foneddigion cyfoes eraill.

Awdur

Ray Looker

Ffynonellau

Jones a Lewis, *Mynegai i Farddoniaeth y Llawysgrifau* (1928)

Llawysgrif Bodewryd yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth 1 (315)

Llawysgrif Brogyntyn yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth 2 (482, 483, 483b, 558b, 560b, 564)

Llawysgrif Glyn Davies yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru 2 (129, 134)

Llawysgrif Gwysaney yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth 25 (383, 547)

NLW MSS 16 (29), 471 (16), 834 (61), 1024 (46), 5269 (212), 6499 (312), 6681 (5, 11)

Llawysgrif Wynnstay yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth 1 (315)

H. Lewis, Thomas Roberts, Ifor Williams (goln), *Cywyddau Iolo Goch ac Eraill, 1350–1450* (Bangor 1925), cxxiii, 6, 70, 161, 191, 312

Heraldic Visitations of Wales and Part of the Marches between the years 1586 and 1613, under the authority of Clarencieux and Norroy, two kings at arms (Llandovery 1846), i, 305; ii, 277

J. Davies, *Antiquæ linguæ Britannicæ et linguæ Latinæ, dictionarium duplex* (1632)

R. Williams, *Montgomeryshire Worthies* (1894)

H. Blackwell, NLW MSS 9251-9277A: A Dictionary of Welsh Biography

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Llywelyn ab y Moel

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q6662998

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu